

**POBL A GWAITH
ADRODDIAD BLYNYDDOL
2020**

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld Pobl a Gwaith yn parhau ei waith ymchwil weithredu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n wynebu pobl yn y Rhondda, a gwneud gwaith ymchwil a gwerthuso ar amrywiaeth o bynciau perthnasol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos rhywfaint o'r gwaith allweddol sydd wedi'i wneud.

Ar ddiwedd 2019 sicrhodd Pobl a Gwaith gyllid ar gyfer prosiect mawr yn cysylltu amrywiaeth o sefydliadau a chymunedau yng Nghymru. Mae'r prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn gweithio gyda naw partner o ardaloedd yng Nghymru, gyda phob un wedi'i ddiffinio gan y diwydiannau hyn, i gynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r economi sylfaenol. Bydd y prosiect yn parhau tan ddiwedd 2022.

Rwy'n ysgrifennu hyn ym mis Ebrill 2020 ac mae COVID-19 wedi cyflwyno rhai problemau uniongyrchol i Pobl a Gwaith o ran staff yn gweithio o bell, ac mae'r problemau hyn wedi'u goresgyn yn hawdd. Fodd bynnag, mae'r rhyngweithio angenrheidiol â phobl y Rhondda yn fwy anodd i'w ddatrys hyd nes y bydd y cyfyngiadau symud yn cael eu codi. Rydym yn disgwyl na fydd llacio llwyr yn sydyn ond yn hytrach bydd yn broses raddol hyd nes bod meddyginiaethau a brechlynnau ar gael (2021?). Mae hyn yn codi pryderon ynghylch a fydd yn fwy anodd sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau ymchwil a chamau gweithredu oherwydd y bydd cyllidebau llywodraeth ac elusennau yn cael eu gwasgu am nifer o flynyddoedd. Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r ffaith bod cyflogaeth ac incwm ledled Cymru yn debygol o ddirywio wrth i'r economi grebachu. Ar un ystyr, rydym yn ôl i'r adeg pan ddechreuodd Pobl a Gwaith yn 1984 pan welwyd lefelau uchel o ddiweithdra a arweiniodd at sefydlu'r sefydliad.

Bydd Pobl a Gwaith yn addasu i'r sefyllfa newydd ac yn chwarae ei ran wrth wella bywydau pobl y Rhondda a ledled Cymru.

Gerard McHugh

Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cyflwyniad

Mae Pobl a Gwaith yn ceisio gwneud gwahaniaeth drwy ddwy swyddogaeth graidd:

- hyrwyddo gwerth addysg a dysgu (i bob grŵp oedran) fel dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyflogaeth, drwy raglen o brosiectau ymchwil weithredu a menter gymdeithasol yn y gymuned; ac
- ymgymryd â gwaith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn meysydd fel addysg (ffurfiol ac anffurfiol), iechyd a chyflogaeth.

Mae gwaith ymchwil weithredu a menter gymdeithasol sydd wedi'i hunangynhyrchu gan Pobl a Gwaith yn cael ei gyllido drwy ymddiriedolaethau a chronfeydd elusennol. Daw incwm a enillir o waith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd a wneir ar gyfer y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae unrhyw warged a enillir drwy'r contractau ymchwil a gwerthuso yn mynd i waith ymchwil weithredu sy'n ceisio meithrin dealltwriaeth o ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau addysg, iechyd a chyflogaeth.

Dr Duncan Holtom yw pennaeth y tîm ymchwil gan weithio gyda Rhodri Bowen, uwchymchwilydd, a Heather Pells.

James Hall sy'n arwain ein gwaith prosiect a phartneriaeth gan weithio gyda James Watts-Rees ac Ethan Jones.

Natasha Burnell sy'n arwain ar fenter gymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Sarah Lloyd-Jones yw'r cyfarwyddwr ac mae'n gweithio gyda'n Hymddiriedolwyr – Ged McHugh (Cadeirydd), Jan Huyton (Is-Gadeirydd), Phil Watkins (Trysorydd), Gareth Lewis, Christala Sophocleous a Gordon Davies.

Ym mis Awst 2020 bu farw ein hymddiriedolwr Archie McCaffer. Mae Archie wedi cefnogi Pobl a Gwaith am dros 20 mlynedd ac rydym yn ei gollu'n fawr.

Cyflawniadau a pherfformiad

Ymchwil a gwerthuso

Mae'r tîm ymchwil wedi parhau i werthuso'r prosiect Buddsoddi'n Lleol, ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ac eleni lluniwyd adroddiad ar dair blynedd gyntaf y rhaglen (<http://www.yac.cymru/buddsoddi-nlleol-y-tair-blynedd-gyntaf>). Mae Buddsoddi'n Lleol yn gweithio gyda thair cymuned ar ddeg ledled Cymru i gefnogi gweithredu cymunedol, gyda chyllid gan y Loteri Genedlaethol.

Cafodd gwaith ar werthuso'r diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth i Gymru a datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig ym mhob ardal awdurdod iechyd ei gwblhau ar gyfer Llywodraeth Cymru. Edrychodd y gwaith ar sut y mae oedolion ag awtistiaeth yn cael eu cefnogi yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-cynllun-gweithredu-strategol-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-terfynol>

Mae ein hymchwil i anghenion cymorth cyflogaeth a sgiliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru i Lywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi hefyd: <https://llyw.cymru/astudiaeth-o-gymorth-cyflogaeth-sgiliau-i-ffoaduriaid>

Gellir dod o hyd i astudiaeth ar argaeledd cyrsiau iaith arwyddion i Lywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-o-ddarpariaeth-iaith-arwyddion-prydain-bsl-i-oedolion-yng-nghymru>

Roedd gwaith arall ar gyfer y sector cyhoeddus eleni yn cynnwys cymorth gwerthuso ar gyfer prosiect peilot CAMHS Mewngymorth i ysgolion (tan ddechrau 2021); astudiaeth sy'n edrych ar wasanaethau iechyd meddwl pob oed; a gwerthusiad o'r prosiect Rhieni a Gofal Plant i Gyflogaeth, gydag OB3, i gyd ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae'r tîm ymchwil yn parhau i ddarparu cymorth gwerthuso i sefydliadau gwirfoddol. Yn 2019, yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, buom yn gweithio gyda Gofalwyr Credu, Anabledd Powys, Age Concern Powys, Cyngor ar Bopeth Powys, RVS (partneriaid yn y prosiect Cysylltu Cenedlaethau); Theatr Spectacle; Cerdd Gymunedol Cymru; SOVA (sef Change, Grow, Live erbyn hyn) ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Mae Pobl a Gwaith yn parhau i gynnull Talwrn, sef grŵp anffurfiol o arweinwyr y sector gwirfoddol o bob rhan o Gymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ugain o bobl o wahanol rannau o Gymru a gwahanol fathau o fudiadau gwirfoddol a chymunedol wedi cyfrannu at Talwrn.

Gwaith Prosiect: Rhondda 1000

Mae Pobl a Gwaith wedi parhau i ganolbwyntio ar ddau Gwm Rhondda. Mae grant gan Sefydliad Garfield Weston ar ddechrau 2019 wedi bod yn sail i strategaeth ar gyfer cynnwys cynifer o bobl â phosibl mewn gweithredu cymunedol ynghylch dysgu, llesiant a chyflogaeth. Mae'r strategaeth gyffredinol wedi cael ei hyrwyddo fel Rhondda 1000 – pennu targed o weld 1000 o bobl leol yn gwneud gweithgareddau newydd erbyn 2025. O fewn y ffocws hwn rydym wedi parhau i feithrin dull cyfannol o ran ymarfer corff, iechyd a ffitrwydd gyda phobl leol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf symudodd tîm y prosiect o ystafell fach yn Too Good to Waste yn Nhreorci i neuadd ysgol fawr yn hen adeilad Ysgol Iau Pentre (milltir i lawr y cwm), i ddarparu ar gyfer rheoli stoc PIAS. Digwyddodd y symudiad ychydig cyn y cyfyngiadau symud ac mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol gan fod lle i 10 o bobl weithio mewn ffordd sy'n cadw pellter cymdeithasol.



Cyllidodd Sefydliad Rank swydd hyfforddai a'n galluogodd i gyflogi James Watts-Rees, arweinydd ifanc lleol sydd â syniadau cyffrous iawn am weithio yn ei gymuned. Mae wedi parhau i gefnogi Rygbi dan Gerdded i bobl hŷn gyda chymorth gan PIAS (gweler isod), gan weithio gyda grŵp o naw o bobl.

Cynhaliodd Pobl a Gwaith Wyl Rygbi dan

Gerdded yn Nhreorci ym mis Tachwedd, gyda 150 o bobl yn bresennol. Noddwyd y digwyddiad gan dafarn y Red Lion, a ddarparodd fwyd i bawb wedyn.

Mae James WR wedi gweithio gyda phobl ifanc yn y Rhondda ac mae'n ysgrifennu:

Rwyf wedi creu perthynas gref gyda'r llyfrgell leol a'r clwb ieuenctid i fyny'r grisiau ac mae hyn wedi ein galluogi i annog y bobl ifanc hyn i lansio prosiectau newydd a chefnogi prosiectau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, rydym wedi cael dros 20 o bobl ifanc yn helpu i roi trefn ar y cit a roddwyd i PIAS.

Mae James WR wedi cynnal prosiect Hyrwyddwyr Her (gyda chyllid Plant mewn Angen) sy'n cefnogi grwpiau o bobl ifanc drwy raglen ffitrwydd i gyflawni her grŵp. Mae wedi gweithio gyda 63 o blant a phobl ifanc ar y prosiect hwn dros y flwyddyn. Mae wedi ehangu'r dull er mwyn cefnogi pobl ifanc i fynd i'r afael â mathau eraill o heriau fel clwb gwyddbwyll, grŵp Pwyleg, grŵp trafod a grŵp cerdded.

Yn ogystal, mae James WR wedi cefnogi tua 25 o bobl ifanc yn anffurfiol ynghylch addysg, iechyd meddwl a phrofiad gwaith. Mae'r tîm prosiectau hefyd yn darparu lleoliad gwaith i fyfyrwr Gradd Meistr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Roedd grant gan Gronfa Gymunedol Pen y Cymoedd wedi ein galluogi i ddatblygu gwaith ar glybiau codio a thechnoleg ddigidol ymhellach. Mae clybiau codio wedi'u sefydlu a'u cynorthwyo ym Mhentre, Treorci a Threherbert a'u dechrau yn Aberdâr, ochr yn ochr â datblygiadau parhaus yn is i lawr y cymoedd. Cyn y cyfyngiadau symud roedd tua 40 o bobl yn mynychu'r sesiynau clwb codio hyn yn rheolaidd, plant oedran ysgol gynradd yn bennaf. Gan weithio gyda phrifysgolion, colegau a busnesau technoleg ddigidol lleol, mae James Hall, rheolwr y prosiect, wedi cysylltu clybiau codio a chyfranogwyr â chyfleoedd mentora.

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd Gŵyl Ddigidol a ddaeth â busnesau technoleg lleol, prifysgolion ac ysgolion i Goleg y Cymoedd yn Llwynypia, lle cafodd 350 o blant a phobl ifanc y cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o gymwysiadau digidol o ddylunio i roboteg a chodio. Cafodd y gwaith hwn ei gefnogi gan Ben y Cymoedd a Sefydliad Waterloo a'i gynnal yn hael gan Goleg y Cymoedd.

O ystyried y prinder menywod mewn diwydiannau TG, penderfynasom hefyd gynnal penwythnos 'Jam Gemau' i fenywod yn unig a ddaeth ag wyth menyw ifanc at ei gilydd i weithio gyda mentoriaid o fusnesau TG ledled De Cymru. Dros y penwythnos datblygodd y grŵp wefan a chreu cronfa ddata a allai ddarparu canlyniadau yn seiliedig ar fewnbwn defnyddwyr. Cefnogwyd y digwyddiad gan Ben y Cymoedd a Sefydliad Moondance. Gofynnwyd i'r menywod ifanc beth yr oeddent wedi ei fwynhau a pham:

*Mwynheais gwrdd â phobl newydd a **dysgu rhagor am y diwydiant technoleg** gan ei fod wedi fy helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn yr hoffwn ei wneud yn y dyfodol*

*Siarad â **phobl yn y diwydiant**, dysgu rhagor am html a css ymarferol a dysgu am JavaScript gweithredol (gol: **ieithoedd codio**)*

*Cwrdd â phobl newydd am ei fod wedi **rhoi hwb i fy hyder***

*Dysgu oddi wrth y **diwydiant am rolau swyddi gwahanol***

Gofynnwyd iddynt hefyd am y ffaith ei fod yn ddigwyddiad i fenywod yn unig. A oedd hynny wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch cyfranogiad neu'ch mwynhad o'r penwythnos? Os felly, sut?

Do, fe wnaeth oherwydd rwy'n credu y byddai bechgyn wedi bod yn fwy profiadol yn y diwydiant technoleg na rhai merched

Do, rhoddodd deimlad o bŵer merched i mi!

Efallai, ond dydw i ddim wedi bod i ddigwyddiadau cymysg y tu allan i'r clwb codio, felly dydw i ddim yn siŵr

Gwnaeth i mi sylweddoli bod mwy allan yno i fenywod nag yr oeddwn yn ei feddwl

Roedd yn braf cwrdd â merched eraill gyda'r un diddordebau ond ni fyddai ots gennyf pe bai'r digwyddiad i ferched a bechgyn ychwaith

Mae'n llai llethol cael merched yn unig pan nad oes gennych lawer o wybodaeth am godio i ddechrau mewn diwydiant sydd eisoes wedi'i stereoteipio, gwnaeth i'r awyrgylch deimlo'n ysgafn heb bwysau

Ymunodd Lotan Matewere, myfyriwr MA gyda Phrifysgol De Cymru, sy'n byw yng Nglynrhedynog yn Rhondda Fach, â ni yr hydref diwethaf ar gyfer ei leoliad cymunedol. Mae wedi bod yn amhrisiadwy o ran cefnogi ein gwaith yn y llyfrgell gyda phobl ifanc (gan helpu i sefydlu clwb gwyddbwyll gyda James WR), rygbi dan gerdded a digwyddiadau cymunedol. James Hall, ein rheolwr prosiect, yw ei oruchwylydd gwaith maes. Mae Lotan yn arwain tîm pêl-fasged ieuenctid yng Nglynrhedynog (ac roedd yn arfer chwarae dros dîm cenedlaethol Malawi).

Menter Gymdeithasol: PIAS

Mae'r fenter gymdeithasol Gadael Ni Chwarae/Play It Again Sport (PIAS) yn gwerthu offer chwaraeon a roddwyd neu a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi. Mae dillad, esgidiau ac offer chwaraeon o ansawdd da yn cael eu gwerthu yn rhad iawn drwy ein partner Too Good To Waste, sydd â dwy siop yn y Rhondda, neu ar-lein. Defnyddir unrhyw warged a sicrheir i gefnogi gweithgareddau llesiant a chwaraeon lleol gan gynnwys rhoi dillad a thalu am hyfforddiant chwaraeon. Yn 2019 sicrhaodd PIAS grant menter gan Sefydliad Rank a'r cyfle i ymuno â rhaglen hyfforddi ryngwladol i entrepreneuriaid. Ym mis Hydref 2019 cafodd Natasha Burnell ei chyflogi fel rheolwr menter gyda grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae PIAS yn ceisio hyrwyddo llesiant corfforol tra'n arbed gwastraff hefyd. Mae gan bob canolfan hamdden yn Rhondda Cynon Taf fin casglu i bobl roi eitemau i PIAS ac mae casgliadau hefyd wedi'u gwneud o ysgolion cynradd.

Play it Again

Sport 

EST. 2016

7
WALKING RUGBY
TOURNAMENTS

700
PLAYERS

4 **CHILDREN'S**
SPORTS FESTIVALS

DONATION BINS
IN LEISURE
CENTRES



600 **CHILDREN**
PARTICIPATED

15,000 ITEMS DIVERTED
FROM LANDFILL

10,000
UNITS RE-CYCLED

WATT'S TOTS RUGBY
GROUP PROVIDING
SUPPORT FOR OVER
20 FAMILIES

CHALLENGE CHAMPIONS PROJECT WORKED WITH
60 YOUNG PEOPLE TO TACKLE OBESITY

email: natasha.burnell@peopleandwork.org.uk Tel: 07375894007

Website: www.peopleandwork.org.uk/en/play-it-again-sport/

Yn ystod 2019 prynodd pobl yn y Rhondda dros 6000 o eitemau o ddillad ac offer chwaraeon/ffitrwydd wedi'u hailgylchu o fannau gwerthu Too Good to Waste am bris cyfartalog o £2.28.

Yn ogystal â rhoddion cyhoeddus, roedd PIAS wedi sicrhau trosiant o £1200 mewn gwerthiannau ar-lein o rodd hael gan Quatro Gymnastics. Cafwyd rhoddion nodedig eraill gan Connect2Africa, a roddodd 112 pâr o esgidiau ymarfer Mizuno newydd, a chafodd PIAS wahoddiad gan Rhedeg Cymru i gasglu'r dillad diangen o Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref, ac rydym yn gobeithio ailadrodd hyn. Mae bin rhoddion hefyd ar gael yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd.



Mae cynyddu rhoddion wedi bod yn ffocws pwysig eleni, ac arweiniodd casgliad mawr o Park Run Porthcawl ar y cyd â Chynghrair Rhedeg Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr at roi dros 500 o eitemau. Bydd y dull hwn yn cael ei ailadrodd pan fo'n bosibl. Mae biniau rhoi ychwanegol

bellach wedi'u lleoli yn Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, yng Nghwmbrân a Phont-y-pŵl, gan fynd â chyfanswm y biniau rhoi i naw.

Datblygwyd cydweithrediadau gyda Re-Run, Planet Earth Games, Sports Traider, Prifysgol De Cymru, Choose2Reuse, SportRCT a Champions for Ynyshir. Mae rhai o'r prosiectau hyn wedi'u rhwystro gan COVID-19, ond byddant yn ailgychwyn pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Un ffocws mawr y cydweithio hwn yw gwella cynaliadwyedd PIAS, lleihau'r ôl-troed carbon ymhellach mewn chwaraeon a dillad yn y Rhondda, a chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision bod yn fwy ecogyfeillgar. O ganlyniad, nid ydym bellach yn defnyddio 'arian parod am ddillad' i waredu rhoddion anaddas, ac rydym yn parhau i nodi ffyrdd o wella ein darpariaeth yn gynaliadwy.

Mae cydweithrediad â Croeso i'n Coedwig wedi gweld ein grŵp rygbi dan gerdded yn cystadlu mewn saith twrnamaint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn dilyn adborth,

gobeithiwn gyflwyno pêl-droed dan gerdded mewn modd tebyg. Cafodd cynllun peilot o ddarparu chwaraeon mewn ysgolion cynradd ymateb cadarnhaol iawn, a chaiff ei gyflwyno pan fydd yn ddiogel i wneud hynny. Mae grŵp cerdded wedi'i sefydlu yn Ynyshir gyda chefnogaeth Gadael Ni Chwarae, ond mae hefyd wedi'i ohirio ar hyn o bryd. Mae sicrhau bod yr arian a godwyd o PIAS yn gwella hygyrchedd chwaraeon ac ymarfer corff yn y gymuned leol wedi bod yn anodd yn ystod y pandemig, ond dyma ein hamcan allweddol o hyd. Yn absenoldeb chwaraeon, rhoddwyd arian gennym i Fanc Bwyd Rhondda a The Play Yard er mwyn darparu cinio yn Nhreforci ac Ynys-wen.

Mae ein gwefan www.playitagainsport.wales bellach wedi'i datblygu ac mae'n offeryn cyfeirio gwych. Gobeithio y bydd yn ffordd arall i ni werthu yn y dyfodol. Mae tudalennau cyfryngau cymdeithasol ar draws Facebook, Instagram a Twitter wedi'u cysoni ac maent bellach yn dangos stori brand. Mae hyn wedi'i gefnogi drwy gyflwyno blogiau gan aelodau o staff sy'n rhoi manylion y stori y tu ôl i'r llenni am ein gwaith.

Mae system rheoli stoc a chyllid newydd wedi'i gweithredu i gadw golwg ar werthiannau a nodi tueddiadau a phatrymau. Cefnogodd hyn ein cais i Rank am £5000 arall, a gafwyd, a gobeithio y caiff ei ddefnyddio i wella cynaliadwyedd Gadael Ni Chwarae yn 2021.

Llechi, Glo a Chefn Gwlad

Yn deillio o drafodaethau talwrn dros nifer o flynyddoedd, datblygodd y syniad o ganolbwyntio ar sut i gefnogi arweinyddiaeth gymunedol, yn enwedig ymhlith pobl iau. Daeth naw partner at ei gilydd i ystyried sut y gallai aelodau o'r gymuned leol weithio gyda nhw i lunio eu gwaith yn y dyfodol a meithrin cyfranogiad yn yr economi sylfaenol. Daw'r partneriaid o ardaloedd eiconig allweddol economi hanesyddol Cymru – y cadarnleoedd llechi, glo ac amaethyddol, ac maent yn ceisio datblygu eu hunaniaeth o fewn modelau economaidd newydd.

Llwyddodd y bartneriaeth i sicrhau cyllid am dair blynedd gan Sefydliad Rank a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r cyllid yn galluogi pob partner i gyflogi arweinydd cymunedol lleol bob blwyddyn rhwng 2020-2022 i helpu i adeiladu ei rôl wrth gefnogi'r economi sylfaenol yn lleol, ac i gynnwys mwy o bobl leol yn ei waith. Cafodd y prosiect, sy'n cael ei gydlynu gan Pobl a Gwaith, ei lansio ym mis Ionawr 2020.

Cyflogodd Pobl a Gwaith, fel partner yn Llechi, Glo a Chefn Gwlad, Ethan Jones, un o drigolion lleol Pentre, fel arweinydd cymunedol am y flwyddyn gyntaf. Mae Ethan, sydd â

chymhwyster mewn TG, wedi cefnogi'r clybiau codio ers cyn y cyfyngiadau symud ac ers hynny mae wedi gweithio ar-lein gan ddarparu adnoddau i athrawon lleol a sefydlu sianel Valleys Code Club ar Youtube. Mae wedi postio pedwar fideo ar y sianel sy'n helpu plant i gael mynediad i adnoddau codio am ddim ac yn ystod y cyfyngiadau symud cafodd y rhain eu gweld dros 230 o weithiau.

https://www.youtube.com/channel/UC8_1xSsVRH4CJ9ndun8Cw7Q/videos

Mae Ethan hefyd wedi postio gweithgareddau codio wythnosol ar gyfryngau cymdeithasol Pobl a Gwaith ac mae wedi datblygu gwefannau i PIAS <http://www.playitagainsport.wales/> ac ar gyfer Llechi, Glo a Chefn Gwlad <https://talwrn.org.uk/cy/llechi-glo-a-chefn-gwlad>.

Partneriaethau

Mae Pobl a Gwaith yn parhau i gefnogi a datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau ym mhopeth y mae'n ei wneud. Rydym wedi cydlynu rhwydwaith Talwrn ers dros 6 blynedd (www.talwrn.org.uk) gydag aelodau'n dod at ei gilydd bob deufis o bob rhan o Gymru i drafod materion sy'n berthnasol i'r sector gwirfoddol. Fel y nodwyd uchod, mae partneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi deillio o'n gwaith gyda Talwrn.

Mae ein dull o weithio yn y Rhondda wedi'i sefydlu'n gadarn ar bartneriaeth ac ar ddatblygu rhwydweithiau newydd a phresennol.

Rhondda Gryfach ac Interlink (cyngor gwirfoddol sirol RhCT)

Mae James Hall yn cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr mewn nifer o grwpiau trydydd sector y Rhondda sy'n rhan o rwydwaith Rhondda Gryfach, sef rhwydwaith anffurfiol (a ddechreuwyd bum mlynedd yn ôl); er enghraifft, mae Pobl a Gwaith yn cydweithio â Theatr Spectacle ar brosiect newydd, gan ddechrau yn 2021, Adrodd Straeon Digidol Rhondda, i ystyried ffyrdd arloesol o ddefnyddio cyfryngau digidol a'r celfyddydau i gofnodi straeon COVID-19 pobl, yn enwedig y rhai yn y sector busnes lleol. Mae James Watts-Rees wedi dod yn aelod o Fwrdd Theatr Spectacle.

Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda Chymdeithas Tai Rhondda am leoliadau prentisiaeth TG posibl a datblygu mwy o brynwyr ar gyfer Gadael Ni Chwarae fel rhan o'u gwaith economi sylfaenol. Rydym yn aelodau o InterLink a gwnaethom gymryd rhan yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Plant y Cymoedd, gan wneud amrywiaeth o gysylltiadau ag eraill yn y sir ynglŷn â'n prosiectau llesiant. Rydym wedi cymryd rhan yn rhaglen

gwobrau gwirfoddolwyr InterLink (drwy James Watts-Rees a phobl ifanc o lyfrgell Treorci). Mae James Hall hefyd yn siarad â Chymdeithas Tai Rhondda a Men's Sheds Treorci ynghylch cymorth posibl ar gyfer caffi trwsio yn Nhrefherbert. Rydym yn ystyried darparu sesiynau codio a chymorth TG ar ôl i'r cyfyngiadau symud iacio.

Croeso i'n Coedwig

Mae Croeso i'n Coedwig yn rhwydwaith o grwpiau a busnesau yn Rhondda uchaf sy'n archwilio'r byd naturiol, yr economi sylfaenol a llesiant. Mae James Hall ar fwrdd eu prosiect 'Creu eich Lle' a ariennir gan y Loteri, gan ddarparu syniadau, awgrymiadau a chynigion o gymorth gan bortffolio o waith prosiect Pobl a Gwaith yn y Rhondda. Mae Natasha Burnell (PIAS) yn trafod syniadau gyda Croeso i'n Coedwig ynghylch trafndiaeth werdd ac atal dillad rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Martyn Broughton (o Croeso i'n Coedwig) i gynnal rygbi dan gerdded Glowyr Rhondda Uchaf bob dydd Mawrth ym Mharc Ystradfechan, Treorci (pan fydd yr amodau'n caniatáu). Bydd y grŵp hwn yn dod yn hunangynhaliol o fewn blwyddyn ac mae ganddo tua ugain o bobl ar y llyfrau gyda deg chwaraewr yn bresennol ar gyfartaledd.

Ymddiriedolaeth Cambrian

Mae James Hall wedi cefnogi Ymddiriedolaeth Cambrian, sef menter gymdeithasol yng Nghwm Clydach, gyda'r gwaith o ddatblygu ei strategaeth ar gyfer y dyfodol. Mae wedi ei chefnogi i ehangu sylfaen ei Bwrdd a darparu cysylltiadau a syniadau ar gyfer ei dyfodol. Mae'r ymddiriedolaeth yn rheoli parc awyr agored poblogaidd iawn a chaffi gyda chyfleusterau cyfarfod a chwaraeon gwych. Drwy ein partneriaeth, rydym wedi defnyddio'r cyfleusterau hyn ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a chyfarfodydd ac rydym hefyd wedi cael rhoddion mawr o offer chwaraeon drwyddynt ar gyfer PIAS.

Siambr Fasnach Treorci

Mae Adrian Emmett, landlord tafarn The Lion yn Nhreforci a Chadeirydd y Siambr Fasnach leol, un o noddwyr y cit ar gyfer tîm Glowyr Rhondda Uchaf a darparodd fwyd ar gyfer yr holl gyfranogwyr a chwaraeodd yn y twrnamaint rhanbarthol a gynhaliwyd yn Nhreforci ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Siambr wedi tyfu o ugain aelod i gant yn ystod y tair blynedd diwethaf a phobl leol sy'n berchen ar 80% o'r busnesau ar brif stryd Treorci. Mae James Hall wedi cysylltu'r Siambr Fasnach â'r Athro Carolyn Strong o Brifysgol Caerdydd. Mae ei

myfyrwyr yn archwilio amrywiaeth o brosiectau busnes a marchnata posibl ar gyfer eu prosiect ail flwyddyn. Bydd hyn yn eu helpu i wneud ymarfer bywyd go iawn mewn un o gymunedau'r Cymoedd a chefnogi busnesau lleol i ddeall yn llawnach pam mae Treorci wedi bod yn gymaint o lwyddiant yn ddiweddar a sut mae angen iddi addasu er mwyn ffynnu yn y cyfnod ansicr hwn. Gwnaeth James hefyd lunio ac anfon arolwg ar-lein at fusnesau lleol, yn holi sut mae pethau ar ôl y don gyntaf o COVID-19 ac a fyddent yn gwerthfawrogi cymorth.

Prifysgolion

Mae James Hall wedi bod yn oruchwyliwr gwaith maes ar gyfer dau fyfyrwr MA (Gwaith Ieuenctid a Chymunedol) eleni – un o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a'r llall o Brifysgol De Cymru. Mae James hefyd wedi trafod cydweithio â'r brifysgol yn y dyfodol mewn prosiectau datblygu cymunedol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a chyflwynodd ddarlithoedd a seminarau achlysurol i fyfyrwyr ar fodiwl cymunedol eu cwrs gradd Addysg.

Mae James Hall yn mynychu sesiynau briffio dros frechwast Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd yn rheolaidd (heb frechwast yn ddiweddar – ar Zoom). Mae'r rhain wedi bod yn seminarau dan arweiniad arbenigwyr mewn sawl maes – o gynllun y Metro i iechyd cyhoeddus a hiliaeth (yr olaf yn enwedig yng ngoleuni COVID-19). Mae'r rhwydwaith hwn wedi helpu i greu'r cysylltiadau rhwng yr ysgol fusnes a Siambr Fasnach Treorci (gweler uchod).

Creodd James hefyd y cysylltiad rhwng Adran Cyfrifiadureg Prifysgol Caerdydd a'r Academi Feddalwedd Genedlaethol a gafodd effaith enfawr ar yr ŵyl ddigidol a gynhaliwyd yn Llwynypia (ar Gampws Rhondda Coleg y Cymoedd) ym mis Chwefror 2020. Rydym yn gweithio gyda Choleg y Cymoedd yn Aberdâr i ddatblygu'r ŵyl ddigidol nesaf, yn 2021 gobeithio ac i ddod o hyd i gefnogaeth ar gyfer y digwyddiad Merched mewn Technoleg nesaf, a oedd mor llwyddiannus wrth ddod â busnesau a phobl ifanc at ei gilydd ar gyfer digwyddiad codio dwys.

Y Cyfryngau

Mae newyddiadurwyr o BBC Cymru ac ITV yn cysylltu â ni'n rheolaidd ac rydym wedi gallu cyfrannu at amrywiaeth o raglenni newyddion a materion cyfoes ar y radio a'r teledu. Mae James Hall wedi cysylltu newyddiadurwyr â phartneriaid a phrosiectau eraill yn ogystal â hyrwyddo cysylltiad PIAS â Hanner Marathon Caerdydd ac ailgylchu cit chwaraeon gan

wirfoddolwyr yn Nhreforci. Aeth hyn ar-lein ac ar y teledu a'r radio yn Gymraeg ac yn Saesneg a chafodd disgyblion chweched dosbarth, staff o Too Good to Waste (ein partner gyda PIAS) a phobl o Hanner Marathon Caerdydd eu cyfweld yn y darn hwn.

Gweithio o bell

Yn ystod y cyfyngiadau symudodd bron y cyfan o'r tîm i weithio o bell ac mae'r gwaith wedi parhau. Mae rôl James WR yn canolbwyntio cymaint ar y gymuned fel ei fod wedi'i roi ar ffyrlo am ychydig fisoedd ond mae pob aelod arall o'r staff wedi addasu i ffordd newydd o weithio. Mae'r tîm wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol drwy Zoom, gyda chyswllt rheolaidd rhwng y cyfnodau hyn sy'n golygu bod ein gweinyddwr – sy'n byw yn Llydaw – wedi gallu ymuno â ni am y tro cyntaf.

Mae arbenigedd James Hall mewn TG wedi sicrhau ein bod wedi gallu parhau i weithio er gwaethaf ambell argyfwng achlysurol gydag offer, adnoddau a chysylltiadau.

Y Dyfodol

Mae'r ffocws ychwanegol ar fenter gymdeithasol a'n gwaith yn cefnogi'r economi sylfaenol wedi arwain at drafodaethau ynghylch sut rydym yn ymateb i effaith argyfwng COVID-19 ac, yn benodol, ei effaith ar yr economi leol ac ar gyflogaeth pobl ifanc.

Rydym wedi cael ein cefnogi gan Sefydliad Rank i barhau gwaith datblygu cymunedol James WR a chyflogi person ifanc drwy Raglen Rank Aspire, sef Tomas Jenkins (ein trydydd aelod tîm o Don Pentre) sy'n dechrau ei flwyddyn gyda ni ar 1 Hydref.

Rydym yn bwriadu mapio effaith COVID-19 ar yr economi leol dros y flwyddyn i ddod, gan adeiladu ar yr arolwg o gyflogwyr y mae James Hall yn ei wneud, ac rydym yn anelu at recriwtio arweinydd cymunedol newydd a all weithio gyda'r gymuned i adrodd hanes COVID-19 a sut y mae'r economi yn adeiladu yn ôl.

Rydym hefyd yn ystyried dod o hyd i ffyrdd o recriwtio mwy o bobl ifanc ar hyfforddeiaeth tymor byr a fyddai'n eu helpu i gynllunio eu dyfodol, gan nodi'r gwaith y maent am ei wneud a'r camau sydd angen iddynt eu cymryd i'w sicrhau.

Mae gennym raglen lawn o waith ymchwil a gwerthuso ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn golygu ein bod yn edrych, ymhlith pethau eraill, ar yr economi sylfaenol yn Ne-ddwyrain a Gogledd-orllewin Cymru.